# Cofrestrwch eich prosiect ar gyfer Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol 2025

26/11/2024




Mae’n ffordd wych o gydnabod eich grant gan y Gronfa Treftadaeth, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac elwa o ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus ar draws y DU.

Ers gêm gyntaf y Loteri Genedlaethol ym 1994, £50 biliwn wedi'i godi ar gyfer achosion da ym meysydd treftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon, ffilm a chymuned. Dyna dros £30miliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol bob wythnos. Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn diolch i'r chwaraewyr am eu cefnogaeth wrth wneud eich prosiect yn bosibl.



# Beth yw Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol?

Cynhelir Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol rhwng dydd Sadwrn 15 a dydd Sul 23 Mawrth 2025. Gall unrhyw un sy'n ymweld â lleoliad neu brosiect a gefnogir gan y Loteri Genedlaethol gyda thocyn Loteri Genedlaethol, Gêm Instant Win neu gerdyn crafu (ffisegol neu ddigidol) fanteisio ar gynnig 'diolch' arbennig.

# Sut fath o beth yw'r cynnig arbennig?

O fynediad am ddim a theithiau y tu ôl i'r llenni i rodd i ddweud diolch neu baned o de, mae yna gynifer o ffyrdd o ddweud #DiolchiChi yn ystod Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol.

Yn flaenorol, mae cynigion poblogaidd wedi cynnwys:

- mynediad am ddim i Ganolfan Ddarganfod Jodrell Bank yn Swydd Gaer, lle gwelwyd cynnydd o 500 o ymwelwyr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- mynediad am ddim i gannoedd o leoliadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- taith dywysedig am ddim y tu mewn i'r Kelpies eiconig yn The Helix, Falkirk
- mynediad 2-am-1 yng Nghastell a Gerddi Hillsborough yn County Down, Gogledd Iwerddon
- gweithdai syrcas am ddim yn The Circus House, Manceinion
- teithiau am ddim o amgylch cloestrau Eglwys Gadeiriol Henffordd
- taith dywysedig am ddim yn RSPB Ynys Lawd, Caergybi

Cymerwch olwg ar enghreifftiau o flynyddoedd blaenorol am fwy o ysbrydoliaeth.

# Pam y dylech gymryd rhan?

Gallwch ddweud 'diolch' wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am yr ariannu y mae eich sefydliad wedi'i dderbyn a chydnabod eich grant. Eich cyfle chi ydyw i ddangos pa wahaniaeth mae'r cymorth hwnnw wedi'i wneud mewn ffordd glir ac uniongyrchol.


Visitors at the Giant's Causeway in County Antrim. Photo: National Trust.

Mae hefyd yn gyfle gwych i dynnu sylw at y gwaith rydych chi'n ei wneud. Bydd llawer o amlygrwydd cyhoeddus yn cael ei roi i'r wythnos, gan gynnwys ymgyrch gyffrous yn y cyfryngau, hysbysebion a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn olaf, mae'n gyfle gwych i groesawu cynulleidfaoedd newydd. Dywedodd tua 70% o'r ymwelwyr a gymerodd ran yn arolwg 2021 Y Loteri Genedlaethol nad oeddent erioed wedi ymweld â'r lleoliad o'r blaen, neu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf. Dyna llawer o ymwelwyr newydd!

Yn 2024, dywedodd 97% o brosiectau a gwblhaodd arolwg cyfranogwyr y Loteri Genedlaethol y byddent yn cymryd rhan eto.

## Cymerwch ran

**Cael gwybod mwy a chofrestru**



## rdeb hefyd mewn ...



Gorsaf Tilbury Riverside.



**treftadaeth cyn ein penblwydd 30**

## Dewch i gwrdd â saith o bobl sydd wedi 'newid y gêm' ar draws treftadaeth, tir a natur